**ELL 3-00(min)**

**Minutes of Education and Lifelong Learning CommitteeCofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 29 Tachwedd, 2000

**Amser:** 2.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc y Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Keith Davies | Yr Is-adran Perfformiad Ysgolion |

**Ymddiheuriadau:**

Christine Humphreys

**Dirprwyadau:**

Mick Bates.

**Datganiadau o Fuddiant:**

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | Aelod o Gyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig |
| Pauline Jarman | Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig |

**Sylwadau Agoriadol**

**Tablau Perfformiad Ysgolion Uwchradd**

Yr oedd y papur hwn wedi ei gyflwyno er mwyn ei nodi. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'n gofyn i'r Gweinidog ei gynnwys yn ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor os oeddent yn dymuno cael trafodaeth sylweddol arno. Ni ofynnodd yr un aelod am ei godi er iddynt nodi y câi ei drafod ar yr un pryd ag y byddai Estyn gerbron y Pwyllgor i drafod ei adroddiad blynyddol a'i gynllun corfforaethol.

**Panel Penodiadau Cyhoeddus**

Cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Panel Penodiadau Cyhoeddus fyddai Jane Davidson, Cynog Dafis a Lorraine Barrett.

**Diploma Medrau Modern**

Yn y cyfarfod ar 15 Tachwedd, yr oedd Janice Gregory wedi gofyn a ellid ymestyn y diploma medrau modern i gynnwys pobl anabl. Yr oedd y Gweinidog wedi cadarnhau y gellid gwneud hynny.

**Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)**

Hefyd yn y cyfarfod hwnnw, yr oedd Pauline Jarman wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a allai'r Pwyllgor fynnu bod CBAC yn ymddangos ger ei fron. Derbyniwyd cyngor gan Tony Widdrington na ellid gorfodi CBAC i ymddangos gerbron y Pwyllgor, gan nad oedd yn gorff a restrwyd yn adran 74 ac Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Yr oedd y per i wneud gorchymyn i newid Atodlen 5 wedi ei ymddiried i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac nid i'r Cynulliad.

Gellid gwahodd CBAC i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor i roi cyflwyniad ar fater y dymunai'r Pwyllgor glywed amdano ac a oedd o fewn cylch gwaith CBAC. Barnwyd mai priodol fyddai cyfeirio unrhyw wahoddiad o'r fath drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel y corff sydd â chyfrifoldeb dros Gyd-bwyllgor Addysg Cymru.

**Ymweliadau ag Ysgolion**

Cytunwyd y dylid parhau â'r arfer o ymweld ag ysgolion a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Addysg Cyn 16 a'i ymestyn i gynnwys sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Byddai'r Clerc yn dosbarthu rhestr o ysgolion a chyrff yr awgrymwyd ymweld â hwy o'r Flwyddyn Newydd hyd doriad yr haf.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adolygiad Polisi - Addysg Uwch**

***Papur: ELL 3-00 (p.1)***

1.1 Amlinellodd yr Athro Les Hobson, Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor ar yr Adolygiad Addysg Uwch, gefndir yr adolygiad, yn cynnwys ei gylch gwaith, y themâu allweddol a’r amserlen.

1.2 Rhoddodd y Cadeirydd wybod bod y Gweinidog wedi sefydlu grp i gynnal adolygiad annibynnol o galedi ymysg myfyrwyr ac y câi’r Pwyllgor gyfle i dderbyn ei adroddiad a gwneud argymhellion arno. Argymhellodd hefyd y dylai caledi ymysg myfyrwyr barhau’n rhan o gylch gwaith yr adolygiad o addysg uwch. **Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig hwn.**

1.3 Dywedodd y Gweinidog y byddai’n gwneud datganiad gerbron y Cynulliad y dydd Mawrth canlynol, yn cyhoeddi aelodaeth y grp adolygu annibynnol a’r cylch gorchwyl drafft. Byddid yn cynnwys crynodeb o farn yr aelodau am briodoldeb y cylch gorchwyl yn adroddiad nesaf y Gweinidog. Gofynnodd hefyd am rannu unrhyw wybodaeth berthnasol a ddeuai o’r adolygiad o addysg uwch â’r grp adolygu caledi ymysg myfyrwyr. Byddai ei ymchwiliad wedi ei gwblhau yn y gwanwyn, fel y byddai modd porthi’r canfyddiadau i’r adolygiad cyffredinol o addysg uwch.

1.4 Yr oedd y Cadeirydd wedi dosbarthu dwy ddogfen i’r aelodau, "Prifysgolion y Dyfodol" ac adroddiad o seminar diweddar ym Mhrifysgol Morgannwg. Dywedodd fod y cynllun yn uchelgeisiol dros ben a bod cyfrifoldeb ar y Pwyllgor i sicrhau yr ymgymerid ag ef yn iawn, a diolchodd i’r Athro Hobson am ansawdd ei waith hyd hynny.

1.5 Ymhlith y pwyntiau a wnaethpwyd yn y drafodaeth yr oedd:

- a oedd undebau’r myfyrwyr, undebau’r darlithwyr (Cymdeithas Athrawon Prifysgol a Chymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi eu cynnwys yn y broses ymgynghori;
- yr anghyfartalwch mewn mynediad i addysg uwch a’r hyn y gellid ei wneud i leihau effeithiau cefndir cymdeithasol-economaidd;
- yr oedd cyflwr adeiladau’n broblem i ysgolion yng Nghymru, a oedd hyn yn wir hefyd yn y sector Addysg Uwch;
- a oeddid wedi ymgynghori ag asiantaethau hyfforddi athrawon;
- a fyddid yn cynnwys addysg gyfrwng Cymraeg yng nghylch gwaith yr adolygiad hefyd;
- yr oedd angen cydweithredu agos mewn unrhyw waith a gyflawnid;
- beth fyddai effaith yr adolygiad ar droi Coleg Cerdd a Drama Cymru’n *conservatoire*;
- sut y byddid yn sefydlu gweithgareddau ymchwil masnachol a’u cysylltu â menter;
- a fyddid yn ymchwilio i’r posibiliadau o gael mynediad i addysg uwch drwy gyfrwng TGCh;
- a oedd bwriad i gynnwys recriwtio a chadw athrawon yn yr adolygiad;
- yn y cynllun gwreiddiol awgrymwyd y dylid dod â chyfranogion a chynrychiolwyr perthnasol y sector addysg at ei gilydd. Ai hynny oedd y bwriad o hyd?

1.6 Rhoddodd yr Athro Hobson yr ymatebion canlynol:

- yr oedd yr holl undebau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi eu cynnwys yn y broses ymgynghori;
- yr oedd y gallu i gael mynediad i addysg uwch yn gwbl hanfodol ond ni roddid cydnabyddiaeth briodol i hynny bob amser gan sefydliadau addysg uwch;
- yr oedd cysylltiad agos rhwng mater amodau llety a'r newidiadau cyffredinol mewn ariannu a drafodid â Chyngor Cyllido Cymru yn y cyfarfod nesaf;
- yr oedd asiantaethau hyfforddi athrawon wedi eu cynnwys yn y broses ymgynghori. Derbyniwyd ymateb oddi wrth yr Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu ond ni allai gofio a oedd wedi derbyn un eto oddi wrth yr Awdurdod Hyfforddi Athrawon;
- yr oedd addysg gyfrwng Cymraeg wedi ei henwi'n benodol;
- cydnabyddid yr angen i gydweithredu. Yr oedd pwyllgor o Is-gangellorion a Phrifathrawon yn ymgymryd ag adolygiadau eraill a gobeithid dod â chynrychiolwyr at ei gilydd o bob rhan o'r DU yn ddiweddarach yn y flwyddyn;
- ni fyddai'r adolygiad yn effeithio ar gais Coleg Celf a Drama Cymru i ddod yn *conservatoire*;
- er na nodwyd hynny'n benodol, yr oedd yr angen am gysylltiadau â menter fasnachol ymhlyg yn y cylch gorchwyl, a disgwylid y byddai Awdurdod Datblygu Cymru yn cael ei gynnwys yn ystod rhan 2;
- cydnabyddid pwysigrwydd mynediad i addysg uwch drwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yr oedd hwn yn faes a oedd yn newid yn gyflym dros ben a disgwylid y byddai galwadau cynyddol am hynny;
- o ran dulliau newydd, yr oedd angen newid ym medrau staff academaidd. Yr oedd yr ymchwil gyfredol yn ystyried creu sefydliadau a hinsawdd lle mai ond yr ymchwilwyr gorau un a gâi ddod i Gymru. Gwnaethpwyd y pwynt yn gryf iawn na fyddwn yn dinistrio'r hyn sydd gennym ond yn ei wella;
- byddid yn dod â chyfranogion a chynrychiolwyr perthnasol o'r sector addysg at ei gilydd yn ystod rhan 2 yr adolygiad.

**Byddai'r Clerc yn darparu ffolder o ddogfennau cefndir i'r aelodau cyn toriad y Nadolig.**

**Eitem 2 ar yr Agenda: Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant - Rhaglen Ddrafft 2001-02**

***Papur: ELL 3-00 (p.2)***

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog y rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant, sef prif raglen y Cynulliad ar gyfer hybu'r agenda safonau mewn ysgolion ac yr oedd ynddi bwyslais cryf ar gynhwysiant cymdeithasol. Dywedodd fod y fformwla ar gyfer dosbarthu adnoddau i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) wedi ei hadolygu er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau yn strwythur y rhaglen ac yr oedd yn cynnwys cam cyntaf o gyfeirio adnoddau i gymunedau difreintiedig.

2.2 Yn y drafodaeth, gwnaethpwyd y pwyntiau cyffredinol a ganlyn:

- Croesawyd y fformwla ddiwygiedig ond teimlid bod ynddi ddiffyg sylfaenol o hyd. Yr oedd

angen mwy o bwyslais ar anfantais gymdeithasol. Dyrennid arian ar gyfer hybu safonau ar sail y nifer o ysgolion mewn AALl ac nid yn ôl perfformiad yr ysgolion, a gallai hynny beri mai'r rhai â'r safonau uchaf a dderbyniai'r arian mwyaf.

- Yr oedd arian ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol hefyd yn cael ei ddosbarthu'n rhannol ar sail nifer yr ysgolion yn yr AALl. Ar y cyfan, yr ardaloedd â nifer fawr o ysgolion oedd y rhai a ddioddefai leiaf o anfantais gymdeithasol.
- Mynegwyd pryder ynghylch y gwahaniaeth sylweddol rhwng yr awdurdodau o ran y gwariant y pen ar ddisgyblion a gofynnwyd i ba raddau yr oedd hyn yn debygol o newid dros y tair blynedd nesaf.
- Teimlid bod angen datrys yr anawsterau a oedd yngln â'r fformwla yn gynt nag ymhen tair blynedd.

2.3 Rhoddodd y swyddogion yr ymatebion canlynol:

- Derbyniwyd y pwynt ynghylch arian i hybu safonau ond yr oedd effaith y dull o redeg y rhaglen 10 mlynedd yn ôl yn parhau.
- Mabwysiadwyd dull graddol o newid y broses fel na fyddid yn peri niwed i'r cynllunio at y dyfodol yn yr awdurdodau hynny a effeithid fwyaf.
- ItByddai graddau'r newidiadau'n dibynnu ar nifer y newidiadau a wneid i'r fformwla, dros ba gyfnod a pha faint o bwysoliad a roddid ar ffactor ar gyfer amddifadedd cymdeithasol. Y rhain oedd y ffactorau a allai ddod â'r ffigurau am y gwariant y pen ar ddisgyblion yn agosach at ei gilydd.
- It was suggested that the current GEST process was not sustainable or equitable and should therefore be wound up. **[Brian : officials most certainly did not say this!!]**

2.4 Gofynnwyd y cwestiynau canlynol mewn perthynas â meysydd gweithgaredd penodol:

<u>Hybu Safonau</u>

- Sut yr oedd gwariant o'r maes hwn ar ieithoedd tramor modern yn cydweddu â'r strategaeth yr oedd y Gweinidog yn ei datblygu?
- Addysg bersonol a chymdeithasol - beth y gellid ei hybu yn y maes hwn o ran gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth?
- Yr elfen medrau allweddol - sut y mae hyn o gymorth i hyfforddi athrawon yn enwedig mewn TGCh?

<u>Cynllunio ar gyfer Llwyddiant</u>

- Beth fyddai'r cysylltiad rhwng yr astudiaeth ar leihau beichiau biwrocrataidd ar athrawon a gwariant yn y maes hwn?

<u>Addysg y Blynyddoedd Cynnar</u>

- Sut y byddai'r gwariant yn cynorthwyo menter y cytundeb partneriaeth i ymestyn y ddarpariaeth i rai 3 blwydd oed a beth oedd y gwahaniaeth rhyngddo a'r strategaeth Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer rhai 3 Blwydd Oed?
- Ym mha fodd y câi'r arian ei wario er mwyn cynorthwyo gwaith y sector gwirfoddol ar ddarparu addysg feithrin gyfrwng Cymraeg, yn cynnwys Ysgolion Meithrin?

<u>Mynd i'r afael ag Amddifadedd Cymdeithasol</u>

- Pa ganran o'r dyraniad a ddefnyddid i ymdrin â phresenoldeb ac ymddygiad, a oedd yn broblem arbennig mewn ardaloedd difreintiedig?

<u>Anghenion Addysg Arbennig</u>

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd y term 'learning support assistants' yn dynodi rhywbeth gwahanol i 'teaching assistants' neu 'classroom support assistance' a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y Cylchlythyrdifference between learning and teaching in the context of learning support assistance.
- Pa ddadansoddi a fu ar y prosiectau cynllunio rhanbarthol peilot a sut y câi'r wybodaeth hon ei lledaenu?
- Pa gysylltiadau a oedd yn bod â'r awdurdodau iechyd a'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol?

<u>Cymraeg</u>

- Yr oedd y Dangosyddion Perfformiad yn aneglur ac nid oeddent yn cyfeirio at wahanol sectorau, targedau neu anghenion. A fyddai arian ar gael i gynnal cynlluniau i athrawon y blynyddoedd cynnar gael hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Pwy oedd yn gyfrifol am osod targedau ar gyfer datblygu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

<u>Prosbectws y tu allan i'r Oriau</u>

- O wybod bod yr arian ar gyfer y Gronfa Ddatblygu Cerddoriaeth yn dod i ben, beth oedd y bwriad ynghylch hybu cerddoriaeth mewn ysgolion?
- Pa fathau o weithgaredd sydd yn gymwys i'w cynnwys mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i'r oriau?

<u>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</u>

- A oedd yr addewid yn y Cytundeb Partneriaeth i ddarparu cyfeiriad e-bost i bob disgybl ysgol yng Nghymru erbyn Gorffennaf 2001 wedi ei gadael ar ôl gan dechnoleg a pha mor berthnasol oedd rhoi cyfeiriad e-bost i rai 6 blwydd oed?

<u>Datblygu Proffesiynol</u>

- Sut y câi medrau arwain a rheoli eu darparu i lywodraethwyr ysgol ac a oedd safon genedlaethol y gallai llywodraethwyr anelu ati?
- Er bod croeso i'r cymorth i'r rhaglen Datblygu Penaethiaid Cenedlaethol, a ddylid rhoi mwy o amlygrwydd i'r math hwn o hyfforddiant?

2.5 Rhoddodd y swyddogion yr ymatebion a ganlyn:

Hybu Safonau

- Yr oedd y gweithgaredd Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant hwn yn ariannu hyfforddiant mewn gwasanaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon, gan gynnwys athrawon ieithoedd tramor modern. Yn hynny o beth, mae'n rhan annatod o'r strategaeth ehangach ond ei fod yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng gwahanol.
- Yr oedd y pwyslais ar sicrhau bod athrawon yn deall yr hyn yr oedd angen iddynt ei ddarparu a sut i wneud hynny orau. Yr oedd manylion cynnwys y cyrsiau a'r digwyddiadau hyfforddi yn faterion i'r darparwyr hyfforddiant.
- Yr oedd darpariaeth benodol ar gyfer TGCh wedi ei chynnwys ym maes gweithgaredd 9, a oedd yn ymdrin â buddsoddi mewn offer a hyfforddiant. O ganlyniad i drafodaeth ag AALlau, yr oedd hyn wedi ei ymestyn i gynnwys hyfforddiant ar gyfer staff TGCh cynorthwyol yn ogystal ag athrawon TGCh.

Cynllunio ar gyfer Llwyddiant

- Byddai hyn yn effeithio'n anuniongyrchol ar y baich biwrocrataidd.

Addysg y Blynyddoedd Cynnar

- Byddai'r arian yn sicrhau y byddai'r athrawon yn meddu ar y medrau angenrheidiol wrth i'r ehangu ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar fynd rhagddo fel y gallent ddarparu addysg o safon uchel. Yr oedd yn gwbl wahanol i'r dyraniad blaenorol ond yn gysylltiedig ag ef.
- Ni ellid dyrannu arian Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant i'r sector gwirfoddol yn uniongyrchol. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol y gwneir Rheoliadau Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant odani yn cyfyngu talu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant i AALlau yn unig. Fodd bynnag, lle yr oedd AALlau wedi gwneud partneriaethau â'r sector gwirfoddol yr oedd modd defnyddio arian Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant i'w cynorthwyo, ar yr amod bod y gweithgareddau a gâi eu hariannu'n gyson ag amcanion cyffredinol y grant.

Currently, there was no primary legislation to enable the Assembly to distribute GEST funding direct to the voluntary sector. It had to be distributed to the LEA, who could then re-allocate to the voluntary sector if they wished.

Mynd i'r Afael ag Amddifadedd Cymdeithasol

- Nid oedd modd rhoi ymateb manwl am nad oedd ceisiadau wedi eu derbyn eto oddi wrth AALlau. Mater iddynt hwy oedd penderfynu sut i rannu eu dyraniad cyfan ar gyfer y maes Gweithgaredd hwn ymysg y gwahanol flaenoriaethau. Yr oedd maes Gweitharedd 5c yn eithriad a gâi ei weinyddu ychydig yn wahanol.

Anghenion Addysg Arbennig

- Yr oedd 'learning support assistants' a 'teaching support assistants' yn dermau cyfystyr yn y bôn. Maent yn cynorthwyo athrawon yn uniongyrchol yn y broses o ddysgu ac addysgu. Defnyddid 'classroom support assistants' yn bennaf i fynd â thasgau gweinyddol oddi ar athrawon er mwyn rhyddhau mwy o amser ar gyfer dysgu.
- Yr oedd y prosiectau peilot ar gyfer cynllunio rhanbarthol ar y ddarpariaeth Anghenion Addysg Arbennig yn eu cyfnod cynnar o hyd. Nid oedd unrhyw ddadansoddiad manwl ar gael eto am eu cynnydd ond byddid yn lledaenu'r gwersi a ddysgwyd yn eang maes o law – ar ffurf arweiniad arfer da yn ôl pob tebyg. Cadarnhawyd mai bwriad y prosiectau peilot oedd ymdrin â chynllunio nid yn unig ymysg Awdurdodau ond ar draws gwasanaethau hefyd.There was no analysis available yet as the pilots were only in their first year.

Cymraeg

Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r arian i alluogi athrawon i gyflawni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg fel pwnc. Much training is taking place in schools and increasingly so in the framework of PSE. Teachers will need to consider this issue in the context of pupils as well as their own personal development. **[Brian : I did say something along these lines but in response to Gareth Jones' question about equal opportunities not about Welsh. I don't think the minutes would suffer by not having a reference to it]**

Prosbectws y tu allan i'r Oriau

- Oes fyr a oedd i'r Gronfa Ddatblygu Cerddoriaeth ac nid oedd yn ymwneud yn ogymaint â gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ond â'r hyn yr oedd yn ofynnol i ysgolion ei wneud ar ben gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, e.e. mwy o berfformiadau cyhoeddus. Byddai dyfodol y Gronfa'n dibynnu ar werthusiad o'i gweithrediad hyd yn hynAn evaluation would be undertaken of how well the programme had performed over the last three years.
- Cymorth i gerddorfeydd, corau ac *ensembles* ieuenctid ac iau ar draws holl amrediad yr arddulliau cerddorol, prynu offerynnau lleiafrifol a hyfforddiant.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- It could help teachers in how they manage their classes.Yr oedd arian yng Ngweithgaredd 9

ar gyfer hyfforddiant yn y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym mhob un o'i hagweddau. Mewn perthynas â chyfeiriadau e-bost unigol, gallai'r hyfforddiant ymdrin â materion fel y materion rheoli ystafell ddosbarth sydd yn codi.

Datblygu Proffesiynol

- Nid oedd safon genedlaethol ar gyfer llywodraethwyr ysgol yn yr un modd ag yr oedd safonau cyfatebol ar gyfer penaethiaid. Prif fwriad yr hyfforddiant oedd ei gwneud yn haws i lywodraethwyr ddeall yr hyn a ddisgwylid ganddynt, eu cyfrifoldebau a sut y gallent gyfrannu at ddatblygu a rhedeg yr ysgol yn effeithiol. Gallai hynny effeithio'n anuniongyrchol ar y baich biwocrataidd.
- Byddid yn cynnwys gwybodaeth bellach ar y rhaglen Datblygu Penaethiaid Cenedlaethol yn adroddiad nesaf y Gweinidog. **[Brian : I didn't say this. Did the Minister?]**

2.6 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bosibl y byddai'r Pwyllgor yn troi at faterion fel ansawdd ariannu os penderfynai gynnal adolygiad ar ysgol y dyfodol, sef y thema a oedd wedi ei nodi fel pwnc i'w adolygu ar ôl addysg uwch.

2.7 Dywedodd y Gweinidog fod y newidiadau yn y fformwla wedi dangos ymrwymiad i ddosbarthu arian yn decach ac yr oedd yn fwy o fater o ba bryd nag o ba fodd. Cytunodd fod angen ymdrin ag amddifadedd cymdeithasol yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Yr oedd angen ystyried ymrwymiad y Cynulliad i gynorthwyo'r holl AALlau, a byddai angen amser ar yr AALlau hynny a oedd yn gweithredu rhaglenni o ganlyniad i Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant er mwyn ymaddasu i'r newidiadau. Awgrymodd y gallai fod yn fuddiol ailystyried y mater ymhen chwe mis pan fyddai'r swyddogion wedi cael cyfle i ystyried goblygiadau newid y fformwla o fewn dwy flynedd yn lle tair.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Cyflwyniad gan y Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. a'r Coleg Digidol**

3.1 Rhoddwyd crynodeb gan Jeff Greenidge, Pennaeth y Brifysgol i Ddiwydiant (Cymru) a Ken New, Pennaeth Cydlynu'r Rhwydwaith o amcanion a chyflawniadau'r Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. hyd hynny. Cyfeiriasant yn benodol at y potensial sydd yn y Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. i symbylu'r galw ac i ymateb, gyda'r Coleg Digidol, i ddysgu drwy ganolfannau ac ar-lein drwy wefan Learndirect.

3.2 Yr oedd y Brifysgol i Ddiwydiant yn cynnwys 'Gwellcymru.com' a Sgiliau Dyfodol Cymru yn ei dogfennau cyfeirio llinell sylfaen. Yr oedd 23 o ganolfannau dysgu yng Nghymru a gynigiai amgylchedd derbyniol a chefnogol i'r rhai nad oeddent yn dymuno astudio ar eu pennau eu hunain. Yr oedd grp ymgynghorol y Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. wedi gosod targed o 17,000 o ddysgwyr erbyn 2003. Yr oedd rhwydwaith y canolfannau dysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac ariennid y wefan gan y Cynulliad Cenedlaethol ymysg eraill. Yr oedd yn chwilio o hyd, ar y cyd â'r Coleg Digidol, am ddeunyddiau newydd.

3.3 Yr oedd y wefan yn cynnwys tudalen dyfodol dysgu ac ynddi dros 700 o broffiliau swydd, a bwriad y tudalen oedd bod yn arf ddiagnostig a gynigiai gymorth â phethau fel cynlluniau gweithredu a CVs. Byddai ymholiadau gan gwsmeriaid a ddefnyddiai'r pedair canolfan alwadau yng Nghymru'n arwain y galwyr at 6,000 o gyfleoedd dysgu gyda mynediad i ddeunyddiau dysgu ar-lein, mewn print a drwy CD-Rom. Yr oedd cymorth ar-lein uniongyrchol drwy diwtoriaid neu e-bost, gyda 400 o ddeunyddiau ffynhonnell, rhagwelid y byddai'n darparu tua 8,500 o oriau dysgu erbyn Ebrill 2001.

3.5 Eglurodd Elen Rhys, Cyfarwyddwr y Coleg Digidol, a Brian Clark, y Rheolwr Prosiectau a Hyfforddiant yr heriau a wynebai'r Coleg. Yr oedd y Coleg Digidol 'ar yr awyr' ers tair wythnos gan neilltuo rhwng 12.5 a 15 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener ar S4C digidol gan ymdrin â phynciau beunyddiol a oedd yn cynnwys cychwyn busnesau, gwaith a medrau, materion iechyd a chymdeithasol ac ieithoedd – wedi eu hanelu at fusnes yn arbennig. Yn ogystal ag ieithoedd Ewropeaidd yr oedd y Coleg hefyd yn cynnig astudiaethau drwy chwe iaith leiafrifol yn cynnwys y Gosofeg, y Somalieg, y Bwnjabeg a'r Fengaleg.

3.6 Prif nod y Coleg oedd denu tua 30,000 o bobl yn ôl i addysg, bu tua 2,500 o ymholiadau hyd hynny. Byddai'r Coleg yn cysylltu â rhaglenni'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru a'r consortia lleol er mwyn sicrhau y gallai defnyddwyr posibl weld lle y mae'r Coleg yn ffitio a'r hyn y gallai ei wneud. Yr oedd y Coleg yn rhwydweithio â phartneriaid lleol a oedd at ei gilydd mewn gwahanol gyfnodau yn eu datblygiad mewn gwahanol feysydd fel gallu technegol, gwybodaeth arbenigol, a.y.b. Byddai'r Coleg yn comisiynu deunyddiau gan bob math o ddarparwyr gan ddefnyddio cymwysiadau a rhwydweithiau amlgyfryngol, yr oedd y rhain yn cynnwys deunyddiau ar gyfer myfyrwyr ag anghenion arbennig.

3.7 Ymhlith y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth yr oedd:

- sut y byddai'r Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. a'r Coleg Digidol yn osgoi dyblygu, yn sicrhau synergedd ac yn cwrdd ag anghenion addysg a hyfforddiant ei fyfyrwyr posibl;
- a oedd eu dulliau partneriaeth ill dau'n cynnwys y Brifysgol Agored a darparwyr 'ail gyfle' eraill, e.e. Coleg Harlech;
- beth oedd y gost ariannol i fyfyrwyr;
- a fyddai modd ymweld â chyfleuster Coleg Digidol;
- a oedd defnydd o ddeunydd addysgol presennol y BBC;
- er mwyn sicrhau bod arferion comisiynu'n dilyn arfer da, a oedd un o'r ddau gorff wedi cysylltu â'r Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu (ACCAC) a oedd yn brofiadol ym maes comisiynu deunyddiau;
- pa dargedau mynediad a oedd gan y cyrff ar gyfer ardaloedd gwledig a sut y byddid yn gwerthuso'r rhain; a
- sut y gallai gwaith y ddau gorff fod o gymorth i oleuo agenda'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes.

3.8 Rhoddodd Jeff Greenidge wybod bod gan y cyrff gynllun gweithredu ar y cyd mewn tri maes – datblygu cynnwys a dulliau mewn medrau sylfaenol fel llythrennedd a rhifogrwydd drwy'r Gymraeg

a’r Saesneg; datblygu strategaethau i ymdrin â’r cysylltu tebygol yn y dyfodol rhwng teledu digidol a’r we; a datblygu anghenion penodol drwy gyfrwng y ddwy iaith, byddent yn cyfarfod yn Ionawr 2001 i drafod y cynllun gweithredu’n fanylach. Pwysleisiodd ei bod yn nod gan y ddau gorff ychwanegu at yn hytrach na dyblygu’r deunyddiau presennol, yr oeddent yn ceisio llunio portffolio o ddeunyddiau ar-lein a drwy ryngwyneb digidol. Nid oedd yn amlwg eto pa ddatblygiadau a allai fod yn y dyfodol rhwng y cyfryngau hyn ond byddai’r cyrff yn edrych yn fanwl ar bob datblygiad newydd.

3.9 Cadarnhaodd Elen Rhys fod y ddau gorff wedi gwario arian cyhoeddus yn effeithiol gan roi pwyslais ar anghenion y ddwy iaith. Gyda’i gilydd byddent yn cyfeirio eu cryfderau unigol tuag at ddarparu ar gyfer anghenion yr holl fyfyrwyr. Dywedodd Ken New fod cysylltu agos wedi bod â’r Brifysgol Agored a darparwyr o bell eraill a roddai ddysgwyr ‘yn y canol’. Yr oedd y gallu i ddefnyddio deunyddiau’r BBC wedi ei lesteirio gan hawlfraint. Fodd bynnag, yr oedd cyrsiau newydd yn canolbwyntio ar anghenion busnes ac yr oedd y ddau gorff yn awyddus i ddatblygu partneriaethau â darparwyr eraill.

3.10 Yr oedd y ddau gorff yn comisiynu eu deunyddiau gan ddilyn yr arfer gorau a oedd ar gael. Byddai cyfarfod cyn hir ag ACCAC er mwyn sicrhau ei fod wedi ei gynnwys yn y broses gomisiynu. Yr oedd ACCAC ar fwrdd ymgynghorol y Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. Yr oedd Estyn yn archwilio’r ddarpariaeth o ddeunyddiau gan y Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. a byddai’r Coleg Digidol yn agored hefyd i archwilio o’r fath. Rhoddodd Elen Rhys wybod nad oedd tâl yn cael ei godi ar fyfyrwyr, ni fyddent yn cofrestru gyda’r naill gorff na’r llall. Os gwelid bod y ddarpariaeth o ddeunyddiau a chyfleusterau’n llwyddiannus, byddai hyn yn denu myfyrwyr at ddarparwyr lleol a fyddai’n eu cynnwys oddi mewn i’r system bresennol o ddarpariaeth lle y byddai’r prosesau codi tâl arferol yn gweithredu.

3.11 Yr oedd darpariaeth ddigidol ar gael yn rhwyddach i fyfyrwyr mewn ardaloedd gwledig. Cyflawnid y gwerthuso’n fewnol ar hyn o bryd gan gynnwys grwpiau eraill o ddarparwyr, a rhai â’u canolfan mewn ardaloedd gwledig yn eu plith, byddid yn cyflwyno dull mwy soffistigedig maes o law. Yr oedd rhai ffigurau gwylio ar gael ond nid oedd modd eto ddynodi pwy oedd yn gwylio.

3.12 Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu arian grant ar gyfer deunyddiau meddalwedd i helpu i ddynodi anghenion, tystiolaeth o ddiddordeb yn y rhaglen a defnydd ohoni, ac i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Byddai’r cam nesaf yn cynnwys asesu anghenion y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Byddid yn darparu’r holl wybodaeth newydd i’r Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCAH). Dywedodd Jeff Greenidge fod cwrdd ag anghenion dysgu gydol oes yn cynnwys prosesau ailadroddol, yr oedd yn rhaid i’r gwaith ddechrau o’r gwaelod i fyny er mwyn dynodi anghenion lleol a symud unrhyw rwystrau rhag dysgu oddi mewn i gymunedau, boed y rheini mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Yr oedd anghenion y dysgwr yn holl bwysig ac yn dod yn gyntaf.

3.13 Diolchodd y Cadeirydd i’r cyflwynwyr am gyfleu agwedd drwyadl a brwdfrydig at eu gwaith.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cyflwyno Adroddiad Tasglu Medrau Cymru**

***Papur: ELL 3-00(p.3)***

4.1 Gyda Mr Connolly, Cadeirydd y Tasglu Medrau yr oedd ei gydweithwyr Peter Rees, Pennaeth Adnoddau Menter yng Ngholeg Technoleg a Chelf Caerfyrddin, a Sandra Davies, Pennaeth Ysgol Gyfun Ogwr.

4.3 Yr oedd y Tasglu wedi cymryd yr wybodaeth am y medrau a oedd ar gael a'r medrau a ddynodwyd gan gyflogwyr ac eraill, wedi ei dadansoddi ac wedi paratoi adroddiad ar y ffordd ymlaen. Tynnodd sylw at y canfyddiadau a'r argymhellion yn Adroddiad y Tasglu. Rhai o'r ffeithiau allweddol oedd y byddai dwy ran o dair o'r holl swyddi erbyn 2010 ar NVQ lefel tri (h.y. yn cyfateb i gymhwyster Safon Uwch) ac yn uwch; bod medrau uwch yn golygu incwm personol uwch a chynnyrch mewnwladol crynswth uwch a bod y rhai heb gymwysterau'n bedair gwaith yn fwy tebygol o fod allan o waith.

4.4 Ymhlith y pwyntiau a godwyd yr oedd:

- ei bod yn holl bwysig cynnwys cyflogwyr a defnyddio cyhoeddusrwydd i hyrwyddo materion darparu gweithlu â gwell medrau;
- bod angen adolygu strwythur cyflog y rhaglen prentisiaethau modern gan roi sylw arbennig i ben uchaf y raddfa;
- a oedd swyddi mewn canolfannau galwadau yn golygu cyfleoedd medrau uchel;
- bod angen symleiddio'r fiwrocratiaeth ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint drwy gyflwyno mentori fel dewis hyfforddi;
- â pha gyrff yr oedd y Tasglu wedi ymgynghori;
- beth oedd ymatebion y cyflwynwyr i waith y Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol – a oeddent yn ychwanegu gwerth ynteu'n dyblygu'r ddarpariaeth bresennol;
- er mwyn helpu busnesau bach a chanolig eu maint i wneud cynnydd dylai'r ddarpariaeth o gyrsiau a hyfforddiant arall fod ar gael mewn fformatiau mwy arloesol ac na ddylid eu canoli mewn canolfan ragoriaeth;
- gan fod tua 20 o gonsortia lleol yn ymwneud â hyfforddi, yr oedd perygl i'r dull o ddarparu fod yn rhy dameidiog ac yn rhy blwyfol, a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol feddwl yn gyfannol ac ystyried canolfan ddarparu genedlaethol;
- pa mor ddylanwadol y byddai Uned Sgiliau Dyfodol Cymru, a fyddai ganddi'r per i sicrhau bod argymhellion y Tasglu yn cael eu dwyn ymlaen;
- os oedd bwlch medrau o 46%, sut nad oedd bwlch mewn medrau arweinyddiaeth, fel yr honnai'r cyflogwyr;
- bod angen dull mwy soffistigedig o werthuso anghenion ar gyfer y dyfodol, dros y 15 mlynedd nesaf dyweder, pryd y byddai technoleg yn symud ymlaen ymhellach, a allai Uned Sgiliau Dyfodol Cymru fynd i'r afael â hynny.

4.5 Rhoddodd Brian Connolly wybod bod y cynllun prentisiaethau modern yn llwyddiant yng Nghymru, dylid cael mwy o hyfforddiant ar sail cyflogaeth a gallai hynny fod yn fwy cyffredin, mater i'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru oedd ymchwilio i hynny. Mater

i’r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru hefyd oedd ymdrin ag anghenion a gweithrediad y broses fentori. Cytunodd Peter Rees fod angen symleiddio gweithdrefnau i’r graddau mwyaf posibl ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint.

4.6 Teimlai’r cynrychiolwyr y byddai’r Brifysgol i Ddiwydiant Cyf. a’r Coleg Digidol yn ychwanegu gwerth at y broses dysgu/hyfforddi, ond nad oedd y gost i fyfyrwyr wedi ei hegluro. Yr oedd hyn yn rhywbeth y byddai angen i’r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru roi sylw iddo maes o law gyda’r darparwyr. Byddai angen hefyd i’r Cyngor ystyried a oedd y ddarpariaeth o hyfforddiant yn rhy dameidiog a rhoi gwybod i’r CCAH yn unol â hynny. Yr oedd Brian Connolly yn ffyddiog y byddai Uned Sgiliau Dyfodol Cymru, gyda chymorth y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru, yn sicrhau y câi argymhellion y Tasglu eu hyrwyddo’n egnïol. Rhannai’r pryder a fynegwyd ynghylch y farn nad oedd bwlch mewn medrau arweinyddiaeth, yn ôl y cyflogwyr.

4.7 Teimlai Brian Connolly y byddai symud ymlaen ag astudiaeth o anghenion hyfforddi Cymru dros y 15 mlynedd nesaf yn gofyn adnoddau sylweddol er mwyn comisiynu astudiaethau o’r patrymau a ddisgwylid yn y dyfodol y tu mewn a’r tu allan i Gymru.

4.8 Hysbysodd y Gweinidog mai’r Cynulliad Cenedlaethol drwy’r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a oedd i ystyried anghenion yn y dyfodol, ynghyd â chyrff eraill y gallai eu gwahodd i ystyried y mater; ni fyddai'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru yn ymgymryd â’i rôl tan Ebrill 2001, ac ni allai’r Cyngor gytuno ar ei raglen waith a’i dwyn ymlaen tan hynny. Yr oedd hyn yn gyfle cyffrous i’r Pwyllgor Addysg, i gymryd rhan ganolog wrth symud ymlaen ag ystyriaeth o anghenion medrau yn y dyfodol. Byddai’r Pwyllgor yn ystyried dwy flaenoriaeth allweddol – hyfforddiant ar sail gwaith oddi mewn i’r cynllun prentisiaethau modern a’r hawl i dderbyn addysg am ddim yng nghyfnod lefel 3 ac wedyn. Gwahododd gynrychiolwyr y Tasglu i ddynodi tri mater allweddol yn yr Adroddiad.

4.9 Cyfeiriodd y cynrychiolwyr at bedwar mater:

- pwysigrwydd sicrhau’r hawl i dderbyn addysg hyd at lefel 3 o leiaf;
- yr angen i sefydlu canolfan ragoriaeth rheolaeth yng Nghymru;
- cyflwyno lwfans cynnal dysgu i helpu rhai 16-18 mlwydd oed i barhau â’u haddysg; a
- pwysigrwydd gwaith o ansawdd da a lefel medrau uchel ar gyfer y rhai sydd yn dilyn cyfleoedd y Fargen Newydd.

4.10 Byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i gyfleu sylwadau’r Pwyllgor fel y gellid eu hystyried fel rhan o’r broses ymgynghori gyfredol.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cofnodion 15 Tachwedd**

***Cofnodion: ELL 1-00 (min)***

5.1 Cadarnhawyd cofnodion 15 Tachwedd.